# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-07-09)

**Dyddiad: 10 Mawrth 2009**
**Amser: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC252 - Rheoliadau Cynllunio Gwlada Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad gwneud. Ni nodwyd y dyddiad gosod. Ni nodwyd y dyddiad dod i rym.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer cynnydd cyffredinol o 4.2% yn lefelau'r ffioedd am geisiadau cynllunio am y cyfnod o 6 Ebrill 2009 i 5 Ebrill 2010 yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu (RPI) mis Hydref 2008. Yn ychwanegol at hyn, bydd y ffi ar gyfer ceisiadau Categori 5 (yn cynnwys ffioedd ffermydd gwynt) ar yr un lefel ffi â Lloegr. Caiff yr uchafsymiau a'r trothwyon hefyd eu gosod ar yr un lefel â Lloegr.

### Eitem 3: Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC251 - Rheoliadau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 18 Mawrth 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn atodi Rheoliad y Cyngor 1198/2006 ar Gronfa Pysgodfeydd Ewrop ("Rheoliad y Cyngor") a Rheoliad y Comisiwn 498/2007 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor ("Rheoliad y Comisiwn").

Mae Rheoliad y Cyngor yn darparu ar gyfer talu cymorth o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop y Gymuned Ewropeaidd mewn perthynas â chategorïau penodol o fuddsoddiadau, prosiectau a gweithrediadau yn y sector pysgodfeydd a dyframaethu ac yn y sector o'r diwydiant sy'n prosesu a marchnata ei gynhyrchion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer ac yn rheoleiddio talu cymorth Cymunedol a grantiau yn ychwanegol at y cymorth gan Weinidogion Cymru tuag at wariant ar weithrediadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Rheoliadau hyn, Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn.

### SLC253 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2009

### Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 20 Mawrth 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003 a Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006 sy'n pennu pa bersonau o dramor, ac eithrio personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, nad ydynt yn gymwys ar gyfer dyraniad o lety tai o dan Ran VI o Ddeddf Tai 1996 nac ar gyfer cymorth tai o dan Ran VII o'r Ddeddf honno.

SLC254 - Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 20 Mawrth 2009

Mae Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2009 yn diwygio Atodlenni 2, 3 a 7 i Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd. Mae'r Rheoliadau newydd yn rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith ynghylch mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd.

Maent yn gwneud yr Atodlenni i'r Rheoliadau yn newidiadwy i alluogi gwelliannau pellach i gael eu gwneud i ddeddfwriaeth yr UE sydd eisoes wedi'u cynnwys yn yr Atodlenni i fod yn uniongyrchol gymwys.

SLC256 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 2 Mawrth 2009. Yn dod i rym ar 23 Mawrth 200

**9**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) 2006, sy'n darparu i ffioedd gael eu codi am wiriadau iechyd planhigion penodol ar blanhigion a chynhyrchion planhigion penodol a gaiff eu mewnforio o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, drwy roi effaith i'r cyfraddau gostyngol diweddaraf ar gyfer arolygiadau o ddeunydd penodol a ddarperir ar ei gyfer yn Erthyglau 13d(2) a 18 (2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC (OJ No.L169, 10.7.00, p1)

### Eitem 4: Ystyried y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol)

Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Ty Carwyn Jones AC

SLC(3)-05-2009(p1) - Adroddiad Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol)

SLC(3)-05-2009(p2) - Ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### Y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes (Mesur Seneddol):

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/002/2009002.pdf

(Saesneg yn unig)

### Nodiadau Esboniadol:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/002/en/2009002en.pdf (Saesneg yn unig)

### Papurau i'w nodi:

Llythyrau'r Cadeirydd at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Nodyn Cyngor Technegol ynghylch Pwerau Cydredol

### Eitem 5: Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) - ystyried yr adroddiad drafft

SLC(3)-03-2009(p1) - Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

SLC(3)-03-2009(p2) - Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

SLC(3)-07-2009(p1) - Adroddiad drafft ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

### Eitem 6: Unrhyw fater arall

### Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf